Y Gwir Anrhydeddus Greg Hands AS
Y Gweinidog Gwladol dros Bolisi Masnach
Yr Adran Masnach Ryngwladol

23 Mawrth 2021

Annwyl Weinidog

**Y Fforwm Gweinidogol ar Fasnach a'r Concordat**

Wrth inni agosáu at ddiwedd y Bumed Senedd, a’r adeg pan fydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol yn cael ei ddiddymu, roeddwn yn awyddus i ysgrifennu atoch ynglŷn â’r concordat ar fasnach ryngwladol, ac ymgysylltu â Llywodraeth Cymru ynghylch cytundebau masnach ryngwladol yn fwy cyffredinol.

Rydym wedi bod yn falch o glywed gan Weinidogion Cymru a Chwnsler Cyffredinol Cymru bod cysylltiadau rhyng-lywodraethol ac ymgysylltu ym maes masnach yn sylweddol well nag mewn rhai meysydd polisi eraill.

Wedi dweud hynny, mae'n ymddangos bod gwaith ar ddatblygu a chytuno ar goncordat ar fasnach ryngwladol rhwng y llywodraethau wedi’i atal ers cryn amser.

Er ein bod yn cydnabod y profiad cadarnhaol o ran ymgynghori a nodwyd wrthym gan Lywodraeth Cymru, rydym yn pryderu rhywfaint mai dim ond ar y meysydd hynny o gytundeb masnach yr ydych chi'n ystyried eu bod yn llwyr gysylltiedig â maes polisi datganoledig, nid y meysydd hynny o gytundeb masnach a allai effeithio'n sylweddol ar faes polisi datganoledig, yr ydych chi’n ymgynghori â Llywodraeth Cymru yn eu cylch. Er enghraifft, tariffau mynediad i'r farchnad sy'n ymwneud â maes polisi datganoledig.

Gobeithiwn y gallwch ystyried ymestyn lefel yr ymgysylltu â Llywodraeth Cymru a gynigir ar hyn o bryd i gynnwys agweddau ar gytundeb masnach posibl sy'n cael effaith sylweddol ar feysydd polisi datganoledig.

Ym mis Rhagfyr 2019, gwnaethom gyhoeddi adroddiad ar gytundebau rhyngwladol y DU ar ôl Brexit: Rôl i'r Cynulliad [Y Senedd]. Wrth inni ddod at ddiwedd ein hamser fel pwyllgor, rydym wedi argymell bod pwyllgor perthnasol yn y Senedd yn y dyfodol yn parhau i ddatblygu’r gwaith hwn ac rydym hefyd wedi nodi bod angen i’r Senedd nesaf barhau i asesu’r goblygiadau i Gymru a datganoli sy’n deillio o bob cytundeb rhyngwladol y DU yn y dyfodol, gan gynnwys cytundebau masnach.

Wrth gloi, hoffwn ddiolch ichi am eich ymgysylltiad â'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol yn y gorffennol.

Os yn bosibl, byddem yn gwerthfawrogi cael ymateb i'r llythyr hwn erbyn diwedd y mis hwn, gan y bydd y Pwyllgor, i bob pwrpas, yn peidio â gweithredu yn fuan wedi hynny.

Caiff ateb diweddarach na hynny ei gadw gan swyddogion y Senedd a'i gyfleu i bwyllgor perthnasol yn y Chweched Senedd, ar ôl ei sefydlu.

Yn gywir,

David F. Rees.

David Rees AS

Cadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.